

Diweddariadaur wythnos o WCVA

24 Mehefin 2019

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Beth allai cyfiawnder economaidd ei olygu i Gymru? Rydym yn cydweithio â'r IPPR i gynnal digwyddiad i archwilio ffyrdd o sicrhau economi fwy cyfiawn yng Nghymru. [Yn y blog yma](#), mae Jacanda Bresson yn egluro pam mae angen y digwyddiad hwn, a sut allwch chi gymryd rhan yn y drafodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rownd nesaf y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Diben y Grant yw cefnogi arfer da ym maes gofal cymdeithasol. Mae WCVA yn cynnal [gweminar am ddim](#) a fydd yn rhoi gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr, ac yn cynnig cyfle i ofyn cwestiynau.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Yn Eisiau: Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i WCVA

Mae WCVA yn chwilio am Reolwr Marchnata a Chyfathrebu profiadol i chwarae rôl hanfodol yn darparu arweinyddiaeth ar draws ein weithgareddau aelodaeth, marchnata a chyfathrebu.

Cronfa Arloesedd Gofalwyr

Mae £5 miliwn ar gael drwy'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wella cymorth i ofalwyr.

Sefydliad Finnis Scott

Mae grantiau rhwng £500 a £10,000 ar gael ym maes garddwriaeth a gwyddorau planhigion, yn ogystal â chelfyddyd gain a hanes celf.

Cyllid diweddaraf

Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn

Gall amgueddfeydd, orielau a phartneriaethau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig wneud cais am rhwng £20,000 a £120,000 ar gyfer prosiectau hyd at dair blynedd o hyd.

Newyddion gwirfoddoli

Profi safonau newydd ar gyfer cynefino gwirfoddolwyr

Mae Helpu yn chwilio am reolwyr gwirfoddol yng Nghymru sy'n barod i roi adborth ar i ba raddau y mae'r safonau drafft yn cyd-fynd â'u prosesau cynefino presennol.

Beth allai cyfiawnder economaidd ei olygu i Gymru?

Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR) yn gofyn sut allai Cymru sicrhau cyfiawnder economaidd gwell. Dyma Jacana Bresson o'r IPPR i roi gwybod beth sydd wedi'i wneud hyd yma a sut allwch chi gymryd rhan.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Gweminar: Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector

Eich cyfle i gael gwybod mwy am y rownd ddiweddaraf o gyllid

[10 Gorffennaf 2019, 14:00 - 15:00](#)

Polisi a prosiectau

Llywodraeth Cymru yn lansio adolygiad o bartneriaethau strategol

Sut ellir symleiddio trefniadau partneriaethau?